CYNGOR SIR CEREDIGION

ADRODDIAD I'R: **Pwyllgor Moeseg a Safonau**

DYDDIAD: **11 Gorffennaf 2024**

TEITL: **Adroddiad am y gweithdy a gynhaliwyd ddechrau'r flwyddyn fwrdeistrefol gydag Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol ac adolygiad o'r templed asesu ynghylch Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau**

PWRPAS YR ADRODDIAD: **Er penderfyniad**

CEFNDIR

Mae gan arweinwyr grwpiau ddwy ddyletswydd statudol:

i. Cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau eu grŵp
ii. Cydweithredu â'r Pwyllgor Safonau wrth arfer swyddogaethau'r pwyllgor safonau.

Mae 4.36 o'r *Canllawiau Statudol ac Anstatudol ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru – darpariaethau ategol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021* yn nodi y dylai arweinwyr grwpiau gwleidyddol gyfarfod â'r pwyllgor safonau ar ddechrau pob blwyddyn fwrdeistrefol i gytuno ar y canlynol:

- Sut y bydd arweinwyr grwpiau a'r pwyllgor safonau yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau safonau o ran ymddygiad priodol;
- Pa mor aml y bydd cyfarfodydd rhwng arweinwyr grwpiau a'r pwyllgor safonau yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn;
- Y trothwy y bydd y pwyllgor safonau yn ei ddefnyddio i benderfynu a yw'n fodlon bod arweinwyr grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â dyletswyddau Deddf 2021;
- Y mecanwaith er mwyn bod arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn darparu adroddiadau i'r pwyllgor safonau am y camau y maent wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r dyletswyddau o fewn Deddf 2021.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Ar 5 Mehefin 2024 cynhaliwyd gweithdy gyda'r arweinyddion grwpiau sef:

· Y Cynghorydd Bryan Davies (Plaid Cymru)
· Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Democratiaid Rhyddfrydol)
· Y Cynghorydd Rhodri Evans (Y Grŵp Annibynnol)

Cydweithio

Canfu Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol fod y cyfarfodydd misol gyda'r Swyddog Monitro yn effeithiol iawn ac roeddynt yn ddiolchgar amdanynt.

Pa mor aml y mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal
Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch yr amser mwyaf addas i arweinwyr y grwpiau gyfarfod â'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a chytunwyd y byddai'n well pe bai'r cyfarfod swyddogol yn cael ei gynnal yn yr hydref yn hytrach nag ym mis Ionawr oherwydd y pwysau sy'n ymwneud â gosod y gyllideb ym mis Ionawr. Roedd arweinwyr y grwpiau gwleidyddol hefyd yn barod i fynychu cyfarfodydd ar adegau eraill o'r flwyddyn pe bai'r angen yn codi.

Cytunwyd ar amserlen ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol fel a ganlyn:

- Gweithdy yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (diwedd Mai/dechrau Mehefin)
- Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn yr Hydref (Medi/Hydref)
- Gweithdy ar ddiwedd y flwyddyn fwrdeistrefol (Mai – cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol)

Y trothwy ar gyfer cydymffurfio
Mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2024 lle cyfarfu'r Pwyllgor ag Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol yn unigol, asesodd y Pwyllgor i ba raddau yr oedd arweinwyr y grwpiau gwleidyddol wedi gwneud y canlynol:

1. cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp
2. cydweithredu â'r Pwyllgor wrth arfer ei swyddogaethau
3. nodi unrhyw anghenion hyfforddi

Dyma asesiad y Pwyllgor:
Roedd arweinwyr y grwpiau wedi cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp, ac wedi gwneud hynny mewn modd ystyrlon;

- Mae Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol yn ymgysylltu ac yn cydweithio â'r Pwyllgor Moeseg a Safonau;
- Mae'n gadarnhaol nad oes nifer uchel o atgyfeiriadau i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- Mae angen cynnwys hyfforddiant gorfodol ar y templed cydymffurfio;
- Mae angen cynnwys hyfforddiant ychwanegol y mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi gofyn amdano ar y templed cydymffurfio;
- Dylai aelodau nad ydynt eisoes wedi cyflawni'r hyfforddiant ynghylch y cyfryngau cymdeithasol, wneud hynny (os ydynt yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol)
- Mae angen i Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol rannu adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru gyda'u grŵp a'u trafod yn eu cyfarfodydd grŵp;
- Canfu Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol fod y cyfarfodydd misol gyda'r Swyddog Monitro yn effeithiol iawn ac roeddent yn ddiolchgar amdanynt.
- Cynigiwyd bod y newidiadau canlynol yn cael eu gwneud i'r templed cydymffurfio:

- Diwygio'r templed er mwyn ei wneud yn haws i'w gwblhau ac er mwyn i Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Pwyllgor Moeseg a Safonau;
- Ail-eirio penawdau;
- Ei wneud yn fwy strwythuredig;
- Cynnwys blwch tystiolaeth Ie/Na;
- Sicrhau nad yw'r templed yn rhy ben agored;
- Cynnwys argymhellion y flwyddyn flaenorol ar y templed.

O ran y trothwy cydymffurfio, felly, credid:

• bod angen ychwanegu hyfforddiant gorfodol at y templed cydymffurfio;
• bod angen cynnwys hyfforddiant ychwanegol at y templed cydymffurfio;
• y dylai aelodau nad ydynt eisoes wedi cyflawni hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol, wneud hynny (os ydynt yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol)
• bod angen i Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol rannu adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru gyda'u grŵp a'u trafod yn eu cyfarfodydd grŵp;

Mecanwaith Adrodd:
Yna trafodwyd y Templed Cydymffurfio gan Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol. Teimlai'r Arweinwyr bod y cwestiynau'n rhy agored ac efallai y byddai'r wybodaeth y byddai'r Pwyllgor ei hangen, yn cael ei hepgor. Rhoddwyd pwyslais ar yr angen am fanylion a thystiolaeth. Cytunwyd i sefydlu gweithgor o'r Pwyllgor er mwyn adolygu'r templed. Mae nifer yr aelodau sydd wedi mynychu hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol i'w ychwanegu at y templed.

Cytunwyd mai Caryl Davies, Gail Storr, Alan Davies a'r Swyddog Monitro fyddai'n aelodau o'r gweithgor.

Mae'r templed wedi'i adolygu: Holiadur i Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol ynghylch Cydymffurfio â'u Dyletswyddau **(Atodiad 1).**

Cytunwyd y byddai cyfarfodydd chwarterol arweinwyr y grwpiau gwleidyddol gyda'r Swyddog Monitro yn parhau.

ARGYMHELLIAD / ARGYMHELLION:
1) nodi sut y bydd Arweinwyr y Grwpiau a'r Pwyllgor yn gweithio gyda'i gilydd, nodi pa mor aml y cytunwyd y byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal a nodi'r trothwy cydymffurfio
2) adolygu a chytuno ar y mecanwaith adrodd diwygiedig: Holiadur i Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol ynghylch Cydymffurfio â'u Dyletswyddau (Atodiad 1).

RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:
Mae'r argymhellion yn angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021

Enw Cyswllt: **Elin Prysor**
Swydd: **Swyddog Monitro**
Dyddiad yr Adroddiad: **19 Mehefin 2024**